# Crynodeb o'r Rheoliadau a'r Arolygiadau Mewnol

# Adroddiad Sicrwydd Blynyddol



2023 - 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.
This document is also available in English. See English page on our website.

Dod o hyd i ni ar

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Adran 1 Crynodeb o’r Rheoliadau a’r Arolygiadau Mewnol 2023/24

## Archwilio Cymru

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| Llamu Ymlaen<br><br>Ebrill 2023 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/flintshire_council_springing_forward_welsh.pdf<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy**<br><br>**A1** Dylai’r Cyngor roi’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau yn y dyfodol o ran ei asedau a’i weithlu, gan adeiladu ar brofiad o’r pandemig, er mwyn datblygu dull hirdymor o ymdrin â’i asedau a’i weithlu, sydd wedi ei integreiddio â chynlluniau allweddol eraill ac a gefnogir gan gynlluniau cyflawni wedi eu costio.<br><br>**Data a Meincnodi**<br><br>**A2** Dylai’r Cyngor ddatblygu ymhellach y defnydd o ddata a meincnodi i lywio gwaith cynllunio, pennu cyllidebau ac i fesur llwyddiant mwy hirdymor ei fentrau asedau a gweithlu. | Cabinet:<br><br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br><br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mehefin 24<br><br>Mehefin 24<br><br>Mehefin 24 | COG – OREN<br><br>**O ran asedau, bydd y Cyngor yn:**<br><br>Gweithio gyda grŵp Rheoli Asedau Rhanbarthol Gogledd Cymru Ystadau Cymru (y mae gan y Cyngor gynrychiolydd arno) i weld a ellir cytuno ar a mabwysiadu meincnodau asedau rhanbarthol.<br><br>Helpu i ddatblygu’r Strategaeth Gofod Swyddfa.<br><br>Darparu Adroddiad Monitro blynyddol ar reoli asedau.<br><br>**O ran y gweithlu:**<br><br>Mae’r Strategaeth Pobl wedi’i diweddaru a bydd yn cael ei chyhoeddi ar ôl i’r Cabinet ei chymeradwyo.<br><br>Mae gan y strategaeth newydd nifer o fesurau perfformiad yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, amser penodi (nifer y diwrnodau gwaith o dderbyn cynnig amodol i gwblhau’r cliriadau er mwyn i’r gweithiwr gychwyn) ac eithrio gweithgarwch trydydd parti (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriadau geirdaon), canran y gweithwyr parhaol sydd wedi gadael o fewn y flwyddyn gyntaf o gyflogaeth, canran trosiant (ac eithrio diswyddiadau).<br><br>Mae’r Cyngor yn adrodd ar ddau o Fesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus (Absenoldebau a Phrentisiaethau) sydd yn ei alluogi i gymharu ei berfformiad gyda pherfformiad y 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru<br><br>Awst 2023 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>[https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Craciau_yn_y_Sylfeini_Diogelwch_Adeiladau_yng_Nghymru_Cymraeg.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Craciau_yn_y_Sylfeini_Diogelwch_Adeiladau_yng_Nghymru_Cymraeg.pdf)<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**Mae A1 / A2 / A3 ac A4 ar gyfer Llywodraeth Cymru**<br><br>**A5** Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai'r Cynlluniau:<br>• fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol ac yn cynnwys camau lliniaru;<br>• nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau rheoli adeiladu i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol;<br>• dangos rôl allweddol rheoli adeiladu o ran sicrhau adeiladau diogel a bod yn gysylltiedig ag amcanion llesiant ac amcanion corfforaethol eraill; a<br>• chynnwys mesurau deilliant sy'n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheoli adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig.<br><br>**A6** Dylai awdurdodau lleol fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:<br>• sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau;<br>• adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r Rheoliadau;<br>• sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a<br>• diwygio ffioedd i sicrhau y codir am wasanaethau yn unol â'r Rheoliadau. | Tîm y Prif Swyddog:<br>Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | 8 Mai 24<br>18 Mehefin 24<br>11 Mehefin 24<br>26 Mehefin 24 | COG - **COCH**<br><br>**A5** Nid oes gennym ni gynllun gweithredu lleol ar hyn o bryd sy'n nodi gweledigaeth glir ar gyfer sut mae Parhad Busnes yn bwriadu gweithredu gofynion y ddeddf yn effeithiol. Mae angen datblygu hyn a'i roi yn ei le. Ymhlith pethau eraill, byddai hyn yn cynnwys y pethau a nodir yn y pedwar pwynt bwled dan A5.<br><br>COG - **OREN**<br><br>**A6** Caiff ffioedd Rheoliadau Adeiladu eu pennu'n lleol gan Gyngor Sir y Fflint. Cynhaliwyd yr adolygiad cynhwysfawr diwethaf o'r ffioedd yn 2018. Bydd y ffioedd yn cael eu hadolygu yn 2024 a bydd hynny'n cynnwys cymhariaeth â chynghorau lleol eraill, yn enwedig cynghorau cyfagos yn y gogledd.<br><br>Mae Rheoli Adeiladu yn wasanaeth cystadleuol. Gall cwsmeriaid ddefnyddio dulliau eraill y tu allan i'r Cyngor i gael Rheoliadau Adeiladu (e.e. defnyddio arolygwyr cymeradwy), felly bydd yn rhaid i adolygiad ac unrhyw adolygiad dilynol o'r ffioedd sicrhau ein bod ni'n aros yn gystadleuol a pheidio â phrisio gwasanaethau'r Cyngor y tu hwnt i'r farchnad.<br><br>COG - **OREN**<br><br>**A7** Bydd hyn yn gofyn am drafodaeth ar lefel ranbarthol i archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio a sefydlu model rhanbarthol.<br><br>Mae Cynllun Awdurdod Partneriaeth Rheoli Adeiladu Awdurdod Lleol eisoes yn ei le a rennir gan bob tîm Rheoli Adeiladu yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n galluogi i gwsmeriaid weithio gydag unrhyw dîm Rheoli Adeiladu awdurdod lleol i ymgymryd â gwaith cyn cyflwyno cais a gwaith fetio dyluniadau, ble bynnag y bo'r lleoliad. Rydym ni eisoes yn darparu'r gwasanaeth hwn i Iceland Foods. Rydym ni'n fetio eu cynlluniau ar gyfer siopau newydd a gwaith ôl-osod, ble bynnag y maent yn ddaearyddol. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | **A7** Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig trwy archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio a rhanbartholi i gryfhau cydnerthedd trwy ddadansoddiad cost a budd o bartneru gydag awdurdodau cyfagos, sefydlu cyd-fentrau a/neu fabwysiadu model rhanbarthol lle y bo hynny'n fuddiol.<br><br>**A8** Dylai awdurdodau lleol adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu cofnodi, eu hasesu, a'u lliniaru mewn modd systematig ac y gwneir gwaith rheolaidd i'w gwerthuso ac i graffu arnynt. | | | **COG - COCH**<br><br>**A8** Mae angen cynnal adolygiad o'r prosesau rheoli risg. Mae yna nifer o risgiau wedi'u nodi'n barod, yn cynnwys nodweddion y system swyddfa gefn a diffyg swyddogaethau gweithio hyblyg (ar gyfer syrfewyr ar safle) a'r gofyniad newydd ers 6 Ebrill 2024 i gofrestru fel arolygydd cofrestredig adeiladu. Gall y tîm/swyddogaeth Rheoli Adeiladu fod yn faes a gefnogir gan adolygiad archwilio mewnol. |
| Adolygiad o Asesiadau Risg a Sicrwydd<br><br>Hydref 2023 | **Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** Er mwyn cyflawni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor brisio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn gyson â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig. Os nad yw'r Cyngor yn datblygu cynlluniau busnes manylach a fydd yn amcangyfrif y buddsoddiad sydd ei angen, mae'n annhebygol y bydd yn gallu cyrraedd ei nod carbon sero net erbyn 2030. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mawrth 24<br>Mawrth 24<br>Ebrill 24 | **COG - OREN**<br><br>Mae pob corff sector cyhoeddus yn cael yr un drafferth wrth nodi costau camau gweithredu ar gyfer yr hinsawdd. Mae hyn oherwydd sawl ffactor: y sefyllfa ariannol gyfnewidiol, y prisiau ynni gwahanol, diffyg argaeledd neu ddealltwriaeth i gymhwyso gwybodaeth ariannol at ffactorau anfesuradwy (fel newid ymddygiad), a diwydiant sy'n esblygu ac yn datblygu'n barhaus ble nad oes gennym ni'r holl atebion i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd. |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: persbectif defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau<br><br>Rhagfyr 2023 | **Dolen at yr adroddiad:** [https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/flintshire_council_service_user_perspective_outcomes_welsh.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/flintshire_council_service_user_perspective_outcomes_welsh.pdf)<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1 Gwybodaeth am safbwynt defnyddiwr y gwasanaeth**<br>Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | 18 Mehefin 24<br>13 Mehefin 24<br>26 Mehefin 24 | **COG - OREN**<br><br>**A1** Caiff gwybodaeth ar lefel defnyddiwr gwasanaeth ei hadrodd yn ôl disgresiwn gwasanaethau i reolwyr perthnasol neu arweinwyr portffolios fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, fel rhan o Hunan-asesiad Corfforaethol y Cyngor yn 2022/23, nododd y Cyngor ymgynghori ac ymgysylltu fel cyfle i wella a lluniwyd cynllun gweithredu i wella a mynd i'r afael â threfniadau ymgynghori ac ymgysylltu ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu, ac fel rhan o'r gwaith i ddatblygu'r strategaeth bydd ffocws allweddol ar ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaeth a sut rydym ni'n casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth yma. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | **A2 Gwybodaeth am ganlyniadau**<br>Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau a fwriadwyd.<br><br>**A3 Trefniadau i wirio ansawdd a chywirdeb data**<br>Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod ganddo drefniadau cadarn i wirio ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu i uwch arweinwyr sy'n ymwneud â phersbectif defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau. | | | **COG - OREN**<br><br>**R2** I gryfhau'r ffordd mae'r Cyngor yn cyflawni ei ganlyniadau a chanlyniadau arfaethedig o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth, bydd yr adolygiad blynyddol o'r camau gweithredu a mesurau a nodir yng Nghynllun y Cyngor (2023-28) yn sicrhau, ble bo'n berthnasol, bod gwybodaeth benodol am y pwnc hwn yn cael ei chasglu a'i chofnodi, gyda chanlyniadau sy'n ceisio darparu buddion tymor byr, tymor canolig a hirdymor i'n dinasyddion a'n cymunedau. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ymgysylltu â phortffolios yn uniongyrchol i gwblhau'r adolygiad cynnwys ar gyfer Cynllun y Cyngor yn 2024-25.<br><br>Yn ogystal, caiff adroddiadau perfformiad chwarterol ar Gynllun y Cyngor (2023-28) eu cyflwyno i uwch-arweinwyr, a fydd yn cynnwys y wybodaeth hon.<br><br>**RAG – GWYRDD**<br><br>**R3** Cyfrifoldeb y maes gwasanaeth yw adolygu cywirdeb y data a'r wybodaeth a ddarperir ganddyn nhw i uwch-arweinwyr. Bydd trefniadau i wirio ansawdd a chywirdeb y data y tu hwnt i'r trefniadau presennol yn gofyn am gapasiti ychwanegol nad yw'r sefyllfa ariannol bresennol yn ei ganiatáu.<br><br>Fodd bynnag, fel cam ychwanegol, bydd gofyn i Arweinwyr Perfformiad gadarnhau'r trefniadau monitro sydd ganddyn nhw ar waith i sicrhau cywirdeb y data a bod y trefniadau sydd ganddyn nhw'n effeithiol. Byddai hyn yn ymdrin â data sy'n ymwneud â safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau rheoli perfformiad Cynllun y Cyngor. |
| Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag<br><br>Ionawr 2024 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>[https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Datblygu_cynaliadwy_gwneud_y_defnydd_gorau_o%20dir_llwyd_ac_adeiladau_gwag_cymraeg.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Datblygu_cynaliadwy_gwneud_y_defnydd_gorau_o%20dir_llwyd_ac_adeiladau_gwag_cymraeg.pdf) | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | I'w gadarnhau<br><br>I'w gadarnhau<br><br>I'w gadarnhau | **COG – Amherthnasol**<br><br>Rydym ni'n ymwybodol o'r adroddiad ac yn paratoi ein hymateb, a byddwn yn cyflwyno popeth drwy'r broses ddemocrataidd gyda hyn. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | **Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** Er mwyn galluogi rhanddeiliaid i asesu safleoedd posibl, dylai cynghorau greu proses systematig i ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer adfywio a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt:<br>• dylai hyn dynnu ar ddata sydd eisoes gan gynghorau, yn ogystal â ffynonellau data allanol i ddatblygu darlun cyfansawdd a mwy cyflawn o safleoedd; a<br>• lle y bo'n hysbys, dylid enwi rhwystrau allweddol i helpu ymdrechion i'w goresgyn<br><br>**A2** Er mwyn helpu i sicrhau bod gweithgarwch adfywio a gwaith i lunio'r amgylchedd yn cael ei oleuo gan anghenion cymunedau dylai Cynghorau gynyddu cyfleoedd i gynnwys y gymuned mewn rhaglenni adfywio, wrth greu cynlluniau a chyflawni'r gwaith datblygu ei hun.<br><br>**A3** Er mwyn darparu ffocws ac ysgogiad i ddatblygu safleoedd tir llwyd dylai Cynghorau adolygu eu dulliau adfywio presennol a, lle y bo hynny'n briodol, pennu polisïau a thargedau adfywio cliriach, mwy uchelgeisiol. Gyda'i gilydd, dylai'r rhain:<br>• ddisgrifio dull a disgwyliadau'r Cyngor;<br>• disgrifio sut y byddant yn darparu adnoddau ar gyfer eu dull; a<br>• disgrifio sut y mae'r dull yn cyd-fynd â nodau polisi cenedlaethol a blaenoriaethau cynllunio rhanbarthol. | | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Digartrefedd<br><br>Ionawr 2024 | **Dolen at yr adroddiad:** Ddim ar gael eto ar wefan Archwilio Cymru<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn weithredol ac yn strategol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod cyllid ar gael i gynnal ei lefelau gwasanaeth neu i wneud penderfyniadau ar gyflawni gwasanaethau yn seiliedig ar yr arian sydd ar gael.<br><br>**A2** Mae'r Cyngor yn sicrhau bod trefniadau ar gyfer gwerthuso ei weithgareddau digartrefedd yn cael eu cymhwyso i bob gweithgaredd fel y gall roi sicrwydd o'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau ac ar effeithlonrwydd.<br><br>**A3** Er mwyn deall anghenion trigolion yn well, dylai'r Cyngor ehangu ei weithgaredd ymgysylltu â thrigolion i gwmpasu datblygu a gwerthuso'r holl wasanaethau. | Tîm y Prif Swyddog:<br>Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Chwefror 24<br>Mawrth 24<br><br>Mawrth 24<br><br>Ebrill 24 | **COG - OREN**<br><br>**A1**<br>• Ymgymryd â gwaith monitro sefyllfa'r gyllideb refeniw yn erbyn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r modelu erbyn diwedd mis Mawrth 2025.<br>• Gweithredu'r mesurau lliniaru cytunedig erbyn diwedd mis Mawrth 2025<br>• Ailstrwythuro'r gwasanaeth er mwyn gwneud y mwyaf o'r adnoddau ar gyfer darparu'r gwasanaeth erbyn diwedd mis Mehefin 2024<br><br>**A2**<br>• Nodi a chofnodi pob gweithgaredd digartrefedd – nid gwasanaethau a gomisiynir gan y Grant Cymorth Tai yn unig, erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br>• Adolygu'r prosesau gwerthuso sydd yn eu lle ar gyfer gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai a datblygu hyn ymhellach i wella'r asesiadau effaith a'r dadansoddiad buddion cost, a chymhwyso hynny at yr holl weithgareddau digartrefedd a nodir erbyn diwedd mis Mehefin 2024<br>• Datblygu rhaglen dreigl a phrosesau lleol ar gyfer gwerthuso'r holl weithgareddau digartrefedd erbyn mis Mehefin 2024<br><br>**A3**<br>• Adeiladu ar y gweithgareddau ymgysylltu â phreswylwyr a datblygu fframwaith ymgysylltu â phreswylwyr ar gyfer gwasanaethau digartrefedd sy'n cynnwys datblygu a gwerthuso gwasanaethau erbyn diwedd mis Medi 2024 |

**Mae'r Cyngor wedi derbyn yr adroddiadau drafft canlynol gan Archwilio Cymru. Bydd adborth yn cael ei ddarparu i Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2024. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi wedyn. Bydd ymateb i unrhyw argymhelliad a diweddariad yn cael eu darparu drwy'r cylch adrodd ffurfiol gyda hyn.**

- Gofal Heb ei Drefnu: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru (derbyniwyd yr adroddiad drafft fis Chwefror 2024)
- Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol (derbyniwyd yr adroddiad drafft fis Mawrth 2024)

# Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Gwerthuso Perfformiad Cyngor Sir y Fflint<br><br>Tachwedd 2023 | **Dolen at yr adroddiad:** https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2024-02/240221-flintshire-PEI-cy.pdf<br><br>Argymhelliad/Cynigion ar gyfer gwella:<br><br>GWASANAETHAU OEDOLION<br>Pobl – Llais a Rheolaeth – Meysydd i'w gwella<br><br>**2.7** Gallai cynlluniau gofal a chymorth gael eu datblygu ymhellach drwy bennu canlyniadau CAMPUS cliriach a defnyddio dull rhagweithiol yn seiliedig ar gryfderau mewn modd cyson. Yn ogystal, er bod lleisiau'r bobl yn glir mewn rhai asesiadau, dylid datblygu'r dull hwn ymhellach mewn cynlluniau gofal a chymorth. ***Dylid cyfeirio at yr hyn sydd o bwys i'r unigolyn a dylid cofnodi canlyniadau personol yn fwy cyson yn y person cyntaf.***<br><br>**2.8** Weithiau, caiff pobl eu cefnogi drwy system unigolion ar ddyletswydd tra'u bod ar restr aros i'w dyrannu i weithiwr penodol. Gall hyn fod yn heriol i bobl gan nad oes goruchwyliaeth ddigonol o'u hamgylchiadau, ceir diffyg parhad cymorth ac mae'n rhaid i'r bobl ailadrodd eu stori. ***Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i sicrhau gweithlu digonol, cymwysedig a medrus cyson er mwyn lleihau'r angen i bobl gael eu cefnogi gan ymarferwyr gwahanol nad ydynt yn eu hadnabod.***<br><br>**2.9** Ceir enghreifftiau o adolygiadau taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, roedd un enghraifft nad oedd wedi cael adolygiad. ***Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y cânt eu defnyddio yn unol â Chod Ymarfer 4 (Diwallu Anghenion) er mwyn asesu a yw'r canlyniadau personol yn cael eu cyflawni o hyd.*** | Cabinet:<br><br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br><br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | 18 Mehefin 24<br><br>6 Mehefin 24<br><br>I’w gadarnhau | Ar y cyfan, rydym ni’n credu bod yr adroddiad yn adlewyrchiad cadarnhaol o’r gwaith parhaus o fewn ein gwasanaethau a gyda’n partneriaid. Mae’r arolygwyr wedi nodi gwaith ac arferion da ar draws bob gwasanaeth. Mae yna ychydig o feysydd i’w gwella, ac rydym ni’n datblygu cynllun gweithredu i fynd i’r afael â nhw. Bydd y cynllun gweithredu drafft yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br><br>Mae’r cynllun gweithredu drafft wedi’i gyflwyno i dîm y Prif Swyddog, gyda’r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Mehefin 2024. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| | **2.10** Pan fydd ymarferwyr yn ceisio cyfathrebu ag unigolion, dylai'r awdurdod lleol sicrhau sail dystiolaeth fwy cyson sy'n adlewyrchu'r dulliau cyfathrebu a ystyriwyd ac y rhoddwyd cynnig arnynt.<br><br>**2.11** Nid oes tystiolaeth ddigonol i ddangos y caiff dulliau eirioli eu hystyried a'u cynnig yn gyson pan fyddai hynny wedi bod yn briodol. ***Mae hwn yn faes y mae'n rhaid ei gryfhau er mwyn dangos y caiff dulliau eirioli eu hystyried fel mater o drefn, yn enwedig ym maes diogelu oedolion.***<br><br>**Llesiant – Meysydd i'w gwella**<br><br>**4.6** Gwelsom amrywiaeth yn y cofnodion gofal cymdeithasol mewn perthynas â diogelu oedolion. Mae angen mwy o eglurder o ran safbwyntiau'r oedolyn sy'n wynebu risg, o ran gwneud penderfyniadau, o ran trafodaethau, ac o ran cadarnhau a yw'r camau gweithredu dilynol wedi ymdrin â'r pryder gwreiddiol. Rhaid rhannu canlyniadau'r ymholiadau â'r unigolyn a gyflwynodd y pryder. ***Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarfer diogelu oedolion yn bodloni gofynion GDC yn gyson.***<br><br>**4.7** Mae asesiadau gofal cymdeithasol ac adroddiadau diogelu rhai unigolion yn dangos nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae ansawdd y cofnodion hyn a'r penderfyniadau a wneir yn amrywiol. ***Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei ymarfer yn cydymffurfio â gofynion ac egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer perthnasol yn gyson.***<br><br>**4.8** Yn debyg i lawer o awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn effeithio ar hawliau pobl. ***Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn addas at y diben a'u bod yn ymatebol.***<br><br>**4.9** Nid yw'r system gofnodi bresennol yn helpu ymarferwyr i nodi cryfderau a chanlyniadau pobl mewn ffordd ystyrlon. ***Dylai'r awdurdod lleol ystyried hyn, a bwrw ati i gaffael system gofnodi wedi'i diweddaru.*** | | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| | **Atal – Meysydd i'w gwella**<br><br>**6.7** Mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau ac adolygiadau gofal cymdeithasol yn uchel a gallant gael effaith negyddol ar bobl. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofal cymdeithasol yn anghyson ar draws timau. Er i ni gael sicrwydd ar lafar fod timau yn goruchwylio rhestrau aros, nid oedd llawer o gofnodion i ddangos hyn. ***Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff rhestrau aros eu monitro mewn ffordd briodol a chyson ac y caiff gwybodaeth allweddol ei chofnodi i ddangos bod achosion yn cael eu blaenoriaethu'n briodol.***<br><br>**6.8** Ni chaiff cynlluniau gofal a chymorth bob amser eu hadolygu mewn modd amserol. ***Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw'r ddarpariaeth gofal a chymorth yn diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer yr unigolyn, ac er mwyn ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen cynnal asesiad arall.***<br><br>**Partneriaeth – Meysydd i'w gwella**<br><br>**8.5** Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn gweithio'n dda ar lefel weithredol; fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth bob amser ei rhannu'n effeithiol oherwydd y dulliau a'r systemau gwahanol ar gyfer cofnodi gwybodaeth. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth pobl ar gael yn hawdd ar draws partneriaid, sy'n cynnwys rhai ymarferwyr a gyflogir gan yr awdurdod lleol. ***Dylai'r awdurdod lleol ystyried sut y gall hyrwyddo prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth ymhellach wrth iddo gaffael system gofnodi newydd.*** Dylai pob ymarferydd perthnasol mewn timau gwahanol o fewn Cyngor Sir y Fflint megis timau ardal, timau camddefnyddio sylweddau a thimau iechyd meddwl cymunedol allu cael gafael ar holl gofnodion yr unigolyn maent yn ei gefnogi. Byddai hyn yn helpu i rannu gwybodaeth ac yn ei gwneud hi'n haws goruchwylio a deall amgylchiadau unigolyn.<br><br>**8.6** Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau ei systemau ar gyfer asesiadau gofalwyr er mwyn sicrhau y caiff hawliau a llais pob gofalwr eu hyrwyddo'n llawn. Nid yw asesiadau gofalwyr yn cael eu cofnodi'n ddigonol ac ni cheir cyfathrebu digonol yn eu cylch o fewn yr awdurdod lleol. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd ymarferwyr yn ymwybodol a oedd asesiad gofalwr wedi cael ei gynnal, ac os oedd, beth oedd canlyniad yr asesiad. ***Rhaid i'r awdurdod lleol oruchwylio'r asesiadau hyn yn well er mwyn bod yn hyderus ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n llawn yn unol â gofynion Rhan 3 a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (asesu a diwallu anghenion unigolion).*** | | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| | **GWASANAETHAU PLANT**<br><br>**Pobl – Llais a Rheolaeth – Meysydd i'w gwella**<br><br>**3.14** Mae'n rhaid i blant a phobl ifanc anabl aros am gyfnodau hir o amser i gael egwyl fer dros nos mewn darpariaeth breswyl. Nod yr awdurdod lleol yw darparu cymorth arall yn y cyfamser, er enghraifft drwy daliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, ***rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ei fod yn gallu darparu llety i blant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n cael eu lletya sydd o fewn ardal yr awdurdod lleol ac sy'n diwallu anghenion y plant. Mae hyn yn unol â Chod Ymarfer 6 (Plant yn Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya).***<br><br>**3.15** O ganlyniad i natur fregus y gweithlu gofal cymdeithasol, mae plant a phobl ifanc yn profi newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol. Caiff plant eu cefnogi drwy system unigolion ar ddyletswydd yn hytrach na gweithiwr dynodedig ar adegau. Mae newid gweithwyr cymdeithasol yn ei gwneud yn anodd i blant feithrin cydberthnasau lle gallant ymddiried yn yr unigolyn arall. Clywsom gan un person ifanc ei fod yn ymwybodol y bydd ei weithiwr cymdeithasol yn newid yn fuan. Yn ogystal, mae'n rhaid i rieni ailadrodd eu straeon a'u safbwyntiau i weithwyr cymdeithasol. O ganlyniad i'r newidiadau mewn ymarferwyr, gall cymorth gael ei oedi, a cheir effaith ar y gallu i oruchwylio sefyllfa plant a phobl ifanc hefyd. ***Rhaid i'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i sicrhau gweithlu cyson, digonol, cymwysedig a medrus i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, a dylai ystyried strategaeth ymadael er mwyn rhoi'r gorau i ddibynnu ar y tîm asiantaeth a reolir a gomisiynwyd.***<br><br>**Llesiant – Meysydd i'w gwella**<br><br>**5.6** Ceir awgrym na chaiff y trothwy ar gyfer niwed sylweddol ei gymhwyso'n gyson bob amser wrth ystyried tynnu plant oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Clywsom y gall hyn fod o ganlyniad i gysyniad amhriodol fod cadw enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ffordd o sicrhau gwasanaethau cymorth parhaus i'r plentyn a'i deulu. ***Dylai'r awdurdod lleol ystyried rhannu canllawiau yn ehangach â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth gyson o'r trothwyon a'r protocolau rhannu gwybodaeth.*** | | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| | **5.7** Caiff risgiau eu hystyried mewn modd priodol, a chaiff plant a theuluoedd eu symud ymlaen i'r gwasanaeth priodol mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae rhai teuluoedd sy'n destun gweithdrefnau amddiffyn plant yn wynebu oedi gan na chaiff ymholiadau bob amser eu cwblhau'n brydlon. Nid yw'r penderfyniad ar ôl cwblhau ymholiad Adran 47 bob amser yn glir. ***Rhaid i'r rheolwyr sicrhau, ar ôl i ymholiad amddiffyn plant ddod i ben mewn modd amserol, y caiff y camau nesaf eu cofnodi mewn ffordd eglur a rhesymegol mewn perthynas â'r penderfyniadau o dan Adran 3 Rhan 1 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.***<br><br>**5.8** Gan na chaiff ymholiadau Adran 47 bob amser eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol, mae hyn yn effeithio ar y gallu i wneud penderfyniadau amserol ynghylch a ddylid cynnwys enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. ***Pan benderfynir bod plentyn yn profi neu'n wynebu risg o brofi niwed, camdriniaeth neu esgeulustod, dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cynhadledd amddiffyn plant ei threfnu ymhen 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth, neu'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth diwethaf (os cafwyd mwy nag un) a arweiniodd at gychwyn yr ymholiad Adran 47.***<br><br>**5.9** Caiff rhai cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth eu harwain gan y gwasanaeth, gyda ffocws ar gydymffurfiaeth yn hytrach na chanlyniadau. Ni chaiff cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth eu diweddaru fel mater o drefn ar ôl cyfarfodydd y grŵp craidd. Cydnabyddir bod yr hyfforddiant diweddar a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol wedi canolbwyntio ar egluro rolau a chyfrifoldebau i weithwyr cymdeithasol. ***Dylai cynllun amddiffyn gofal a chymorth amlinellol a luniwyd yn y gynhadledd gyntaf gael ei ddatblygu i greu cynllun manylach yng nghyfarfod cyntaf y grŵp craidd cyntaf fel y nodir yn GDC. Dylai grwpiau craidd dilynol fynd ati'n benodol i adolygu cynnydd o ran y canlyniadau ar gyfer diogelwch y plentyn. Dylai arweinwyr sicrhau bod gan ymarferwyr systemau a safonau clir ar gyfer datblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.***<br><br>**5.10** Gwelsom enghreifftiau fod datgeliadau gan yr heddlu am gefndir troseddol unigolyn, lle ceir risg bosibl i blentyn, wedi cael eu hystyried yn briodol er mwyn hyrwyddo diogelwch plant. Fodd bynnag, nid oedd y broses rhannu gwybodaeth bob amser wedi'i chwblhau mewn modd amserol. Nodwyd mai pwysau gwaith oedd yn gyfrifol am yr oedi mewn un enghraifft. ***Pan fo'r awdurdod lleol yn ymwybodol o wybodaeth o'r fath, ac y cytunwyd y gall rannu gwybodaeth ag unigolion perthnasol er mwyn hyrwyddo diogelwch plentyn, rhaid gwneud hyn mewn modd amserol.*** | | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| | **Atal – Meysydd i'w gwella**<br><br>7.5 Nid yw plant sy'n niwroamrywiol neu sy'n aros am ddiagnosis o gyflwr niwroamrywiol posibl a'u rhieni bob amser yn cael gohebiaeth a chymorth prydlon a digonol. Mae oedi wrth roi cymorth yn effeithio ar eu llesiant. Cydnabyddir bod gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'r sefyllfa hon ac aeth ati'n ddiweddar i ddatblygu ei wasanaeth er mwyn cyflwyno rôl benodol i ymateb i rieni/gofalwyr a rhoi cymorth iddynt yn gynt, yn ystod y cyfnod pan fydd eu plant yn aros am asesiad/diagnosis niwroamrywiol. ***Dylai'r awdurdod lleol barhau i oruchwylio a monitro effeithiolrwydd y datblygiad hwn ac effaith hyn ar blant a theuluoedd.***<br><br>**Partneriaeth – Meysydd i'w gwella**<br><br>9.6 ***Rhaid i'r gwasanaethau plant gyflwyno gwybodaeth am ganlyniadau'r ddyletswydd i adrodd mewn modd amserol i'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos i ddechrau.*** Ceir anghysondebau o ran yr ymarfer cyfredol yn hyn o beth.<br><br>9.7 ***Rhaid i'r gwasanaethau plant sicrhau y caiff asiantaethau priodol eu gwahodd i drafodaethau/cyfarfodydd strategaeth yn unol â GDC, gan gynnwys ymarferydd sy'n llunio'r adroddiad ac ymarferwyr o wasanaethau addysg ac iechyd yn y gymuned os yn berthnasol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.***<br><br>9.8 Roedd safbwyntiau a phrofiadau rhieni/gofalwyr plant anabl yn nodi y gellid cryfhau'r cymorth sydd ar gael iddynt ac y gallai fod yn fwy hyblyg. Gwnaethant ddweud wrthym nad oedd y cymorth a gynigir bob amser yn addas ar gyfer eu hanghenion hwy ac anghenion eu plant. ***Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y rhiant/gofalwr yn cael ei gynnwys fel partner llawn wrth asesu i ba raddau y gall gyflawni ei ganlyniadau personol, neu gyda chymorth pobl eraill sy'n fodlon darparu'r cymorth hwnnw; neu gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned sydd ar gael iddo.***<br><br>*9.9* Gwelsom enghreifftiau o blant a oedd yn gadael gofal yn gorfod nodi eu bod yn ddigartref er mwyn cael cymorth tai. Dywedodd ymarferwyr hefyd fod llety i bobl ifanc yn her barhaus ac yn faes i'w wella. Ceir opsiynau tymor hwy clir i gefnogi pobl ifanc gyda chymorth tai yn gyffredinol, yn unol â'r amcanion llesiant yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Un enghraifft yw cynllun strategol wedi'i lywio gan ddull amlasiantaethol, er mwyn creu hwb digartrefedd i bobl ifanc a fydd yn cynnig llety yn ogystal â gwasanaethau cymorth. ***Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i flaenoriaethu ei raglen o sicrhau opsiynau tai priodol i bobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl 16-17 oed perthnasol.*** Dylid cynnig opsiynau tymor hwy a thymor byrrach, a lle y bo'n bosibl, gan osgoi'r angen i unigolion sy'n gadael gofal orfod nodi eu bod yn ddigartref. | | | |

# Estyn

Ni chyhoeddwyd adroddiadau ar arolygon gan Estyn ynglŷn â Sir y Fflint fel awdurdod yn 2023/24 ac felly nid oes diweddariad ar y cynnydd.

# Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Gwybodaeth 2022-23<br><br>Gorffennaf 2023 | **Dolen at yr adroddiad:**<br><br>https://ico.org.uk/media/about-the-ico/documents/4025864/annual-report-2022-23.pdf<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>Dim | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Amherthnasol<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | **Amherthnasol** |

# Adran 2 Crynodeb o'r Rheoliadau a'r Arolygiadau Mewnol 2023/24 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNNYDD

## Archwilio Cymru

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br><br>Ebrill 2022 | **Dolen at yr adroddiad:** [https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Direct%20payments%20-%20Cym-update-sept-2022.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Direct%20payments%20-%20Cym-update-sept-2022.pdf)<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** Yn adolygu gwybodaeth gyhoeddus gan drafod gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i sicrhau ei bod yn eglur, yn gryno ac yn egluro'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.<br><br>**A2** Yn gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol.<br><br>**A3** Yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.<br><br>**A4** Yn sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y drws blaen i ofal cymdeithasol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth gychwynnol am yr opsiynau o ran gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu: Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Ebrill 23<br><br>Ebrill 23 | COG: GWYRDD<br><br>Rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth hygyrch ac amserol. Mae Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi cydgynhyrchu, gyda dinasyddion, cyfres o lyfrynnau gwybodaeth, taflenni ffeithiau ac adnoddau eraill i helpu pobl i ddeall taliadau uniongyrchol. Rydym ni hefyd yn cydnabod, waeth beth fo ansawdd y wybodaeth ysgrifenedig, bod angen mabwysiadu dulliau hyblyg a phwrpasol i alluogi dealltwriaeth lawn o'r cyfleoedd a'r cyfrifoldebau, ac rydym ni wedi ceisio hwyluso dull sy'n annog hynny. Rydym ni'n cytuno i ryw raddau bod hyrwyddo taliadau uniongyrchol fel opsiwn gwirioneddol i bobl yn cyd-fynd ag arferion gwaith cymdeithasol, dealltwriaeth gwaith cymdeithasol, diwylliant tîm, hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac arweinyddiaeth. I roi ychydig o gyd-destun i'r argymhellion yma, rydym ni'n teimlo y byddai darparu enghreifftiau o adnoddau o ansawdd da, fel gwybodaeth sydd ar gael, dulliau hyfforddiant ac ati, manylion beth sydd ar gael a beth sydd ar goll yng Nghymru, wedi bod yn ddefnyddiol ac yn adeiladol i gefnogi cynnydd yn y meysydd hyn. | COG: GWYRDD<br><br>**A1** Yn adolygu gwybodaeth gyhoeddus gan drafod gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i sicrhau ei bod yn eglur, yn gryno ac yn egluro'n llawn yr hyn y mae arnyn nhw angen ei wybod am Daliadau Uniongyrchol. Rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth hygyrch ac amserol. Mae Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi cydgynhyrchu, gyda dinasyddion, cyfres o lyfrynnau gwybodaeth, taflenni ffeithiau ac adnoddau eraill i helpu pobl i ddeall taliadau uniongyrchol. Rydym ni hefyd yn cydnabod, waeth beth fo ansawdd y wybodaeth ysgrifenedig, bod angen mabwysiadu dulliau hyblyg a phwrpasol i alluogi dealltwriaeth lawn o'r cyfleoedd a'r cyfrifoldebau, ac rydym ni wedi ceisio hwyluso dull sy'n annog hynny. Rydym ni'n cytuno i ryw raddau bod hyrwyddo taliadau uniongyrchol fel opsiwn gwirioneddol i bobl yn cyd-fynd ag arferion gwaith cymdeithasol, dealltwriaeth gwaith cymdeithasol, diwylliant tîm, hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac arweinyddiaeth. I roi ychydig o gyd-destun i'r argymhellion yma, rydym ni'n teimlo y byddai darparu enghreifftiau o adnoddau o ansawdd da, fel gwybodaeth sydd ar gael, dulliau hyfforddiant ac ati, manylion beth sydd ar gael a beth sydd ar goll yng Nghymru, wedi bod yn ddefnyddiol ac yn adeiladol i gefnogi cynnydd yn y meysydd hyn. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | **A5** Yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus yn eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.<br><br>**A6** Yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Personol.<br><br>**A7** Yn egluro disgwyliadau polisi mewn iaith glir, hygyrch ac yn nodi:<br>• yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano;<br>• sut y mae prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu'n gweithio;<br>• sut y bydd monitro taliadau uniongyrchol a'r gwaith papur sy'n ofynnol i wirio taliadau'n gweithio;<br>• sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin a pha un a ellir ei fancio; a<br>• sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.<br><br>Dylai gwybodaeth gyhoeddus gael ei hadolygu'n rheolaidd (o leiaf bob dwy flynedd) i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol ac yn dal i fod yn berthnasol.<br><br>**A9** Yn cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn a honno'n system sy'n cofnodi pob elfen o'r broses – gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar lesiant ac annibyniaeth. | | O ran **A3**, rydym ni wedi drysu ychydig o ran bod yr adroddiad yn awgrymu y dylid darparu cyngor annibynnol am daliadau uniongyrchol ar y cyswllt cyntaf. Mae hyn fel petai'n mynd yn groes i ganfyddiadau'r adroddiad yn arddangosyn 3 a pharagraff 2.11 bod dinasyddion sy'n cael cefnogaeth gan wasanaethau taliadau uniongyrchol a ddarperir gan awdurdodau lleol yn cael profiadau mwy cadarnhaol na'r rheiny sy'n defnyddio gwasanaeth wedi'i gomisiynu. Mae canfyddiadau'r adroddiad hefyd yn awgrymu bod 96% o'r bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn cael y wybodaeth gychwynnol gan ymarferwyr yr awdurdod lleol.<br><br>**Taliadau Uniongyrchol a Chyllid**<br>Rydym ni'n croesawu'r addewid ym maniffesto'r Llywodraeth Lafur Gymreig i wella'r rhyngwyneb rhwng taliadau uniongyrchol a gofal iechyd parhaus. Rydym ni'n datblygu hyn yn ei flaen drwy grwpiau budd-ddeiliaid a ffocws. Fodd bynnag, er mwyn i bobl sy'n derbyn cyllid gofal iechyd parhaus fanteisio ar yr un hawliau o ran cael dewis a rheolaeth dros eu trefniadau fel y caiff derbynwyr taliadau uniongyrchol eraill, rydym ni'n credu bod angen newid y ddeddfwriaeth safonol. | I'r perwyl hwn rydym ni wedi gweithio gyda dinasyddion Sir y Fflint i wella'r mynediad at wybodaeth am amrywiaeth o enghreifftiau o ymarfer gorau mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol, yn cynnwys ychwanegu ffilmiau gwybodaeth byrion ar lwyfan ar-lein taliadau uniongyrchol y Cyngor.<br><br>**A2** Yn gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Mae tîm Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwybodaeth ac i alluogi pobl i ddeall a gwireddu gwir botensial buddion taliadau uniongyrchol. Mae gwaith hyrwyddo'r cynllun yn Sir y Fflint yn cynnwys cydweithio dyddiol a pharhaus gyda'r gweithlu gofal cymdeithasol a pherthynas gyd-gynhyrchiol gydag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, sefydliadau gofal, y gweithlu cymorth personol a darparwyr micro. Mae ffilm wedi'i hanimeiddio wedi'i chreu a'i lansio'n ddiweddar ar dudalennau gwe'r Cyngor ac mae hon yn ategu amrywiaeth o ddeunyddiau hyrwyddol sydd ar gael i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol.<br><br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Direct-Payments/What-are-Direct-Payments.aspx |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **A10** Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i'w gwneud yn bosibl cael golwg system gyfan ar y modd y cânt eu darparu ac o'u heffaith i gefnogi gwelliant. | | | **Systemau i werthuso Taliadau Uniongyrchol**<br>Mae Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi datblygu setiau data craidd ac yn defnyddio gwybodaeth ddeallus i hysbysu blaenoriaethau ac arferion i'r dyfodol. Rydym ni'n gwneud ein gorau glas i alinio data o'r fath ag effaith hysbys datrysiadau taliadau uniongyrchol i ddarparu proses werthuso 360 gradd. Rydym ni hefyd wedi cynnwys adborth dinasyddion yn ein gwaith ac yn defnyddio hyn i siapio a chadarnhau effeithiolrwydd ein gwasanaethau. Byddai cynnwys enghreifftiau o'r fath yn yr adroddiad a/neu awgrymiadau rhagweithiol i helpu awdurdodau lleol i greu systemau cadarnach yn cael ei groesawu.<br><br>**Recriwtio a Chadw**<br>Cyflogir Cynorthwywyr Personol yn uniongyrchol gan y derbynwyr sy'n cael eu grymuso a'u cefnogi i fod yn gyflogwyr da, i ymgymryd â'u cyfrifoldebau ac i gadw gweithwyr. Nid ydym ni'n gallu gweld sut y gellir mabwysiadu cynllun recriwtio a chadw ar y cyd heb danseilio annibyniaeth cyflogwyr taliadau uniongyrchol. Byddai'n well gennym ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cefnogi o ansawdd sy'n helpu derbynwyr taliadau uniongyrchol i fod yn gyflogwyr da. | Mae'r tîm yn mynd i ddigwyddiadau ble bynnag y bo hynny'n bosibl i hyrwyddo taliadau uniongyrchol a'r mentrau talu arloesol sy'n digwydd yn Sir y Fflint. Mae ein gwaith yn aml yn cynnwys mynd i gyfarfodydd tîm, cynnig hyfforddiant pwrpasol, ymweld â sefydliadau partner, cydweithio gydag adrannau awdurdod lleol eraill, hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac amrywiaeth o fentrau i gefnogi a datblygu Cynorthwywyr Personol Sir y Fflint.<br><br>**A3** Yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.<br><br>O ran **A3**, rydym ni wedi drysu ychydig o ran bod yr adroddiad yn awgrymu y dylid darparu cyngor annibynnol am daliadau uniongyrchol ar y cyswllt cyntaf. Mae hyn fel petai'n mynd yn groes i ganfyddiadau'r adroddiad yn arddangosyn 3 a pharagraff 2.11 bod dinasyddion sy'n cael cefnogaeth gan wasanaethau taliadau uniongyrchol a ddarperir gan awdurdodau lleol yn cael profiadau mwy cadarnhaol na'r rheiny sy'n defnyddio gwasanaeth wedi'i gomisiynu. Mae canfyddiadau'r adroddiad hefyd yn awgrymu bod 96% o'r bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn cael y wybodaeth gychwynnol gan ymarferwyr yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, caiff eiriolaeth annibynnol ei chynnig yn rheolaidd pan fydd hynny'n fuddiol i'r unigolyn. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Egluro Disgwyliadau Polisi**<br>Rydym ni’n credu bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rhan 4 y Cod Ymarfer yn darparu’r wybodaeth, yr arweiniad a’r fframwaith sydd eu hangen i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni’r argymhelliad hwn. Byddem hefyd yn bryderus y byddai argymhelliad sy’n awgrymu bod yr hyn a ellir talu amdano drwy daliadau uniongyrchol yn cael ei ddiffinio yn rhwystro arloesedd ac yn arwain at ddull sy’n fwy rhagnodedig ac yn canolbwyntio ar broses. Mae yna eisoes systemau llai manwl hygyrch yn eu lle yng Nghymru i leihau biwrocratiaeth, gwaith papur ac archwilio â llaw, gan alluogi pobl i ganolbwyntio ar yr hyn sy’n bwysig iddyn nhw. Byddai enghreifftiau o systemau da wedi helpu i ddangos yr opsiynau.<br><br>**Cyllid heb ei ddefnyddio**<br>Yn Sir y Fflint rydym ni’n hyrwyddo defnydd hyblyg o daliadau uniongyrchol, gan alluogi pobl i ddiwallu eu hanghenion, cyflawni canlyniadau ac addasu i amgylchiadau sy’n newid. Fodd bynnag, pan nad oes angen y cyllid mwyach i ddiwallu anghenion a chyflawni canlyniadau asesedig, rydym ni’n gwneud ein gorau i weithio mewn partneriaeth ag unigolion i ailddefnyddio’r arian nad oes ei angen mwyach. Caiff yr arian ei ddychwelyd i’r awdurdod lleol a’i ddefnyddio gyda phobl eraill. Fodd bynnag, rydym ni’n diystyru’r gwerth wyth wythnos o gyllid i gefnogi’r hyblygrwydd cynhenid sydd yn y cynllun. | | **A4** Yn sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y drws blaen i ofal cymdeithasol a’u bod yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth gychwynnol am yr opsiynau o ran gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.<br>Cynigir cymorthfeydd taliadau uniongyrchol i’r gweithlu gofal cymdeithasol er mwy rhoi gwybod iddyn nhw am daliadau uniongyrchol ac i archwilio opsiynau ac atebion posibl cyn ymweliadau cyntaf. Mae’r tîm taliadau uniongyrchol yn cynnig ymweliadau gwybodaeth i gefnogi ymarferwyr i gael sgyrsiau cynhyrchiol a gwybodus gyda dinasyddion am daliadau uniongyrchol a’r cyfleoedd posibl. Mae’r tîm taliadau uniongyrchol yn darparu pecynnau gwybodaeth ar bapur ac yn ddigidol, gan ddarparu gwybodaeth hygyrch am daliadau uniongyrchol i hysbysu ymarferwyr a dinasyddion a’u helpu nhw i wneud dewisiadau gwybodus. Mae tudalennau gwe taliadau uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint wedi cael sylw’n genedlaethol ac mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr wedi mabwysiadu'r fformat a’r adnoddau sydd ar gael i bobl. Mae’r tudalennau gwe yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth yn ogystal â manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth os oes angen. | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cynorthwywyr Personol**<br>Rydym ni'n cydnabod bod cynorthwywyr personol yn ffynhonnell gefnogaeth bwysig i lawer o bobl, ac yn aml iawn yn arwain at berthnasau personol a hyblyg sy'n fuddiol ynddo'i hun. Mae Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi dylunio, datblygu a gweithredu adnoddau arloesol iawn sy'n cefnogi ac yn cydnabod rolau cynorthwywyr personol yn yr ardal. Yr adnoddau hyn yw'r rhai cyntaf o'u math yng Nghymru, ac rydym ni'n siomedig iawn nad oes cyfeiriad atyn nhw yn yr adroddiad. Mae dulliau o'r fath yn aml yn gatalyddion ar gyfer trafodaeth, herio a gwella ac, yn hyn o beth, rydym ni'n teimlo bod y penderfyniad i beidio â chyfeirio atynnhw, ac at waith arall sy'n cael ei wneud ar draws Cymru, yn gyfle arall sydd wedi'i golli.<br><br>Nid ydym ni'n cytuno'n llwyr â'r datganiad ***"Mae Cynorthwywyr Personol yn hanfodol i allu pobl i wneud y gorau o Daliadau Uniongyrchol, ond mae defnyddwyr gwasanaethau'n aml yn ei chael yn anodd eu recriwtio".*** Fel y nodwyd, gall cynorthwywyr personol fod yn ateb da i lawer o bobl, yn enwedig y rheiny sydd angen gofal a chefnogaeth gorfforol. Fodd bynnag, rydym ni'n teimlo bod y pwyslais hwn ar gynorthwywyr personol yn annefnyddiol ac yn dangos safbwynt cul iawn. Yn bendant, taliadau uniongyrchol yn Sir y Fflint yn canolbwyntio ar helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau | | **A5** Yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus yn eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Darperir hyfforddiant gorfodol drwy'r tîm Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i weithwyr cymdeithasol yn chwarterol. Darperir yr hyfforddiant hwn gan reolwr y tîm taliadau uniongyrchol, felly mae'n adlewyrchu adnoddau, dulliau, enghreifftiau a blaenoriaethau lleol. Ymhellach i hyn, gellir darparu hyfforddiant pwrpasol i dimau ac unigolion ar gais. Mae hyn wedi'i ymestyn i sesiynau i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn ogystal â sesiynau i ymarferwyr mewn awdurdodau lleol eraill i'w cefnogi nhw ar eu taith taliadau uniongyrchol.<br><br>**A6** Yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Personol. Cyflogir Cynorthwywyr Personol yn uniongyrchol gan y derbynwyr sy'n cael eu grymuso a'u cefnogi i fod yn gyflogwyr da, i ymgymryd â'u cyfrifoldebau ac i gadw gweithwyr. Nid ydym ni'n gallu gweld sut y gellir mabwysiadu cynllun recriwtio a chadw ar y cyd heb danseilio cyflogwyr taliadau uniongyrchol annibynnol. Mae'n well gennym ganolbwyntio ein hadnoddau ar ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel i gyflogwyr taliadau uniongyrchol sydd yn eu helpu nhw i ymgymryd â'u cyfrifoldebau, datblygu arferion gweithio diogel, cynnig amrywiaeth o fuddion i weithwyr, cefnogi twf a datblygiad personol ac yn darparu gyrfa broffesiynol i bobl. | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | | | personol, felly ni ddylid cyfyngu’r datrysiadau. Ymhellach i hyn, gallasem fod wedi darparu ystod o enghreifftiau creadigol.<br><br>**Gwybodaeth sy’n hygyrch ac o ansawdd da**<br>Rydym ni’n croesawu'r canfyddiad bod y rhan fwyaf o’r derbynwyr a oedd yn rhan o’ch arolwg yn cael gwybod am daliadau uniongyrchol gan swyddog awdurdod lleol. Roeddem hefyd yn falch bod pob awdurdod lleol yn gwneud eu gorau i ddarparu gwybodaeth o ansawdd am daliadau uniongyrchol. O safbwynt Sir y Fflint, mae’r tîm wedi gweithio gyda dinasyddion a phartneriaid TG i ailwampio ein hadnoddau ar y we yn llwyr. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 800% yn y gweithgarwch dros y 12 mis diwethaf. Yn ogystal, rydym ni wedi hwyluso fforymau, cyhoeddi newyddlen chwarterol, creu tudalen newyddion ar-lein, datblygu tudalennau Facebook a Twitter, ysgrifennu erthyglau ynglŷn â thaliadau uniongyrchol, cynhyrchu fideos hyrwyddol o ansawdd da ar gyfer sianel YouTube Sir y Fflint, wedi annerch aelodau etholedig, datblygu catalog o enghreifftiau o ffyrdd arloesol i ddefnyddio taliadau uniongyrchol ac wedi cefnogi datrysiadau arloesol, yn enwedig yn ystod y pandemig i helpu pobl i oresgyn heriau personol. Rydym ni’n teimlo’n gryf y byddai rhannu arferion o’r fath wedi helpu i gydbwyso’r adroddiad a chefnogi awdurdodau lleol eraill i ddatblygu eu hadnoddau a’u dulliau eu hunain. | Mae cyflogi cynorthwywyr personol yn darparu nifer o fuddion i bobl ac mae’n ffordd dda i ddefnyddio adnoddau yn effeithlon. Mae’r gweithlu presennol o gynorthwywyr personol yn arbed llawer iawn o arian i’r adran o gymharu â datrysiadau gwasanaethau traddodiadol. Byddai recriwtio Cydlynydd Cynorthwywyr Personol yn sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu cyflawni a bod y buddion o ran gwerth a chost sy’n gysylltiedig â’r gweithlu cynorthwywyr personol yn cael eu gwireddu. Mae achos busnes buddsoddi i arbed yn cael ei ddatblygu.<br><br>Mae hyfforddiant arbenigol i gyflogwyr yn cael ei drefnu drwy yswirwyr taliadau uniongyrchol arbenigol ac yn cael ei gynnig i gyflogwyr taliadau uniongyrchol yn Sir y Fflint.<br><br>Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer cynorthwywyr personol yn y sir, yn cynnwys tystysgrif sefydlu, modiwlau e-ddysgu pwrpasol drwy Grey Matter Learning, Croeso i rôl y Cynorthwy-ydd Personol a ddarperir bob chwarter wedi’i hwyluso gan reolwr tîm taliadau uniongyrchol. Rydym ni hefyd wedi datblygu amrywiaeth o fuddion ychwanegol sy’n cefnogi rôl cynorthwywyr personol, yn annog unigolion i ddewis yr yrfa yma ac yn gymorth i ddal gafael ar gynorthwywyr personol. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Gwariant cyfartalog fesul derbynnydd Taliadau Uniongyrchol**<br>Nid ydym ni'n deall gwerth y gymhariaeth hon yn llwyr. A yw'r adroddiad yn awgrymu rhyw fath o gydberthyniad rhwng cyllid taliadau uniongyrchol y pen ac anghenion sy'n cael eu diwallu, neu ganlyniadau a gyflawnir? Os felly, byddai'n ddefnyddiol petai'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau er mwyn egluro hynny'n well. O'n profiad ni, mae rhai o'r datrysiadau arloesol rhataf yn gallu arwain at gyflawni canlyniadau unigol y mae'r buddion yn anghymesur iawn o gymharu â'r gost ariannol. | **A7** Yn egluro disgwyliadau polisi mewn iaith glir, hygyrch ac yn nodi:<br>• yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano;<br>• sut y mae prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu'n gweithio;<br>• sut y bydd monitro taliadau uniongyrchol a'r gwaith papur sy'n ofynnol i wirio taliadau'n gweithio;<br>• sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin a pha un a ellir ei fancio; a<br>• sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.<br><br>Rydym ni'n hyderus bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rhan 4 y Cod Ymarfer yn darparu'r wybodaeth, yr arweiniad a'r fframwaith sydd eu hangen i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni'r argymhelliad hwn. Ymhellach i hyn gofynnwyd i reolwr y tîm taliadau uniongyrchol wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â mân newidiadau i ran 4 y cod er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.<br><br>Caiff taliadau uniongyrchol yn Sir y Fflint eu defnyddio'n greadigol i ddiwallu anghenion asesedig unigolion a rhai cyfunol, yn ogystal â chanlyniadau lles cytunedig. Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol mewn sawl ffordd i helpu i ddiwallu gwahanol anghenion dan amryw o amgylchiadau. Mae atebion yn ystyried cryfderau, rhwydweithiau a diddordebau ac ati, felly byddai'r awgrym y gellir llunio rhestr ragnodedig i ddisgrifio'r hyn y gellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar eu cyfer yn rhwystro arloesedd |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yn sylweddol ac yn arwain at ddull sy'n canolbwyntio mwy ar broses ragnodedig. Rydym ni'n hyderus bod ein sgyrsiau gyda phobl a'u cynrychiolwyr yn cydnabod yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ac yn galluogi cydgynhyrchu go iawn rhwng bob parti er mwyn archwilio a gweithredu atebion.<br><br>Mae yna eisoes systemau llai manwl hygyrch yn eu lle yng Nghymru i leihau biwrocratiaeth, gwaith papur ac archwilio â llaw, gan alluogi pobl i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae gan Sir y Fflint amrywiaeth eang o enghreifftiau o arfer gorau i helpu i arddangos yr opsiynau.<br><br>**A9** Yn cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn a honno'n system sy'n cofnodi pob elfen o'r broses – gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar lesiant ac annibyniaeth.<br><br>Mae Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi datblygu setiau data craidd ac yn defnyddio gwybodaeth ddeallus i hysbysu blaenoriaethau ac arferion i'r dyfodol. Rydym ni'n gwneud ein gorau glas i alinio data o'r fath ag effaith hysbys datrysiadau taliadau uniongyrchol i ddarparu proses werthuso 360 gradd. Rydym ni hefyd wedi cynnwys adborth dinasyddion yn ein gwaith ac yn defnyddio hyn i siapio a chadarnhau effeithiolrwydd ein gwasanaethau. Byddai cynnwys enghreifftiau o'r fath yn yr adroddiad a/neu awgrymiadau rhagweithiol i helpu awdurdodau lleol i greu systemau cadarnach yn cael ei groesawu. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **A10** Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i'w gwneud yn bosibl cael golwg system gyfan ar y modd y cânt eu darparu ac o'u heffaith i gefnogi gwelliant.<br><br>Gwneir taliadau uniongyrchol i bobl yn lle gwasanaethau traddodiadol. Mae'r dull hwn yn galluogi unigolion i wneud trefniadau pwrpasol sydd yn aml iawn yn greadigol ac yn hyblyg. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau bob tro yn diwallu anghenion asesedig a chanlyniadau lles a nodir drwy asesiad statudol a phroses cynllunio gofal a chefnogaeth. Caiff llwyddiant y rhain eu hadolygu ar adegau penodol, gan nodi a yw'r atebion sy'n cael eu prynu drwy'r taliadau uniongyrchol yn cwrdd â'r diben bwriadedig. Os nad ydyn nhw, byddai disgwyl i'r rheiny ddod i ben a threfnu gwasanaeth amgen yn eu lle. Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol yn fodlon adrodd ar unrhyw agwedd ar y cynllun ar gais. Er mwyn i hyn fod o fudd, byddai'n rhaid i ni gael gwybod pa berfformiad sydd angen ei fesur.<br><br>**Rhagor o Wybodaeth**<br>**Cyllid heb ei ddefnyddio**<br>Yn Sir y Fflint rydym ni'n hyrwyddo defnydd hyblyg o daliadau uniongyrchol, gan alluogi pobl i ddiwallu eu hanghenion, cyflawni canlyniadau ac addasu i amgylchiadau sy'n newid. Fodd bynnag, pan nad oes angen y cyllid mwyach i ddiwallu anghenion a chyflawni canlyniadau asesedig, rydym ni'n gwneud ein gorau i weithio mewn partneriaeth ag unigolion i ailddefnyddio'r arian nad oes ei angen mwyach. Caiff yr arian |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ei ddychwelyd i'r awdurdod lleol a'i ddefnyddio gyda phobl eraill. Fodd bynnag, rydym ni'n diystyru'r gwerth chwe wythnos o gyllid i gefnogi'r hyblygrwydd cynhenid sydd yn y cynllun.<br><br>**Cynorthwywyr Personol**<br>Rydym ni'n cydnabod bod cynorthwywyr personol yn ffynhonnell gefnogaeth bwysig i lawer o bobl, ac yn aml iawn yn arwain at berthnasau personol a hyblyg sy'n fuddiol ynddo'i hun. Mae Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi dylunio, datblygu a gweithredu adnoddau arloesol iawn sy'n cefnogi ac yn cydnabod rolau cynorthwywyr personol yn yr ardal. Yr adnoddau hyn yw'r rhai cyntaf o'u math yng Nghymru, ac rydym ni'n siomedig iawn nad oes cyfeiriad atyn nhw yn yr adroddiad. Mae dulliau o'r fath yn aml yn gatalyddion ar gyfer trafodaeth, herio a gwella ac, yn hyn o beth, rydym ni'n teimlo bod y penderfyniad i beidio â chyfeirio atyn nhw, ac at waith arall sy'n cael ei wneud ar draws Cymru, yn gyfle arall sydd wedi'i golli.<br><br>Nid ydym ni'n cytuno'n llwyr â'r datganiad "Mae Cynorthwywyr Personol yn hanfodol i allu pobl i wneud y gorau o Daliadau Uniongyrchol, ond mae defnyddwyr gwasanaethau'n aml yn ei chael yn anodd eu recriwtio". Fel y nodwyd, gall cynorthwywyr personol fod yn ateb da i lawer o bobl, yn enwedig y rheiny sydd angen gofal a chefnogaeth gorfforol. Fodd bynnag, rydym ni'n teimlo bod y pwyslais hwn ar gynorthwywyr personol yn annefnyddiol ac yn dangos safbwynt cul iawn. Yn bendant, taliadau uniongyrchol yn Sir y Fflint yn |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | canolbwyntio ar helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau personol, felly ni ddylid cyfyngu’r datrysiadau. Ymhellach i hyn, gallasem fod wedi darparu ystod o enghreifftiau creadigol.<br><br>**Gwybodaeth sy’n hygyrch ac o ansawdd da**<br>Rydym ni’n croesawu'r canfyddiad bod y rhan fwyaf o’r derbynwyr a oedd yn rhan o’r arolwg yn cael gwybod am daliadau uniongyrchol gan swyddog awdurdod lleol. Roeddem hefyd yn falch bod pob awdurdod lleol yn gwneud eu gorau i ddarparu gwybodaeth o ansawdd am daliadau uniongyrchol. O safbwynt Sir y Fflint, mae’r tîm wedi gweithio gyda dinasyddion a phartneriaid TG i ailwampio ein hadnoddau ar y we yn llwyr. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 800% yn y gweithgarwch dros y 12 mis diwethaf. Yn ogystal, rydym ni wedi hwyluso fforymau, cyhoeddi newyddlen chwarterol, creu tudalen newyddion ar-lein, datblygu tudalennau Facebook a Twitter, ysgrifennu erthyglau ynglŷn â thaliadau uniongyrchol, cynhyrchu fideos hyrwyddol o ansawdd da ar gyfer sianel YouTube Sir y Fflint, wedi annerch aelodau etholedig, datblygu catalog o enghreifftiau o ffyrdd arloesol i ddefnyddio taliadau uniongyrchol ac wedi cefnogi datrysiadau arloesol, yn enwedig yn ystod y pandemig i helpu pobl i oresgyn heriau personol. Rydym ni’n teimlo’n gryf y byddai rhannu arferion o’r fath wedi helpu i gydbwyso’r adroddiad a chefnogi awdurdodau lleol eraill i ddatblygu eu hadnoddau a’u dulliau eu hunain. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Gwariant cyfartalog fesul derbynnydd Taliadau Uniongyrchol** Nid ydym ni’n deall gwerth y gymhariaeth hon yn llwyr. A yw’r adroddiad yn awgrymu rhyw fath o gydberthyniad rhwng cyllid taliadau uniongyrchol y pen ac anghenion sy’n cael eu diwallu, neu ganlyniadau a gyflawnir? Os felly, byddai’n ddefnyddiol petai’r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau er mwyn egluro hynny’n well. O’n profiad ni, mae rhai o’r datrysiadau arloesol rhataf yn gallu arwain at gyflawni canlyniadau unigol y mae’r buddion yn anghymesur iawn o gymharu â’r gost ariannol. Rydym ni’n tynnu sylw at rai o’r mentrau taliadau uniongyrchol cyfun yn Sir y Fflint sydd wedi galluogi pobl i gyfuno adnoddau er mwyn creu datrysiadau a rennir, lleihau costau, cynyddu’r buddion ac atal yr angen am gefnogaeth statudol sy’n fwy ffurfiol. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030<br><br>Gorffennaf 2022 | **Dolen at yr adroddiad:** https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Parodrwydd_y_Sector_Cyhoeddus_ar_gyfer_Carbon_Sero_Net_erbyn_2030.pdf<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>O ystyried natur lefel uchel yr adolygiad, ni nodwyd argymhellion penodol. Fodd bynnag, maen nhw'n annog cyrff cyhoeddus i ystyried y pum neges yn yr adroddiad:<br><br>- Cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol<br>- Egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad<br>- Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch<br>- Nodi eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti<br>- Gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Chwefror 23<br><br>Chwefror 23<br><br>Ionawr 23 | **COG – OREN**<br><br>Fel Cyngor, rydym wedi cryfhau ein harweinyddiaeth drwy benodi Aelod Cabinet Newid Hinsawdd ymroddedig, Pwyllgor Newid Hinsawdd ffurfiol a gweithgorau swyddogion trawsadrannol i ddangos cydgyfrifoldeb drwy gydweithio. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus i gael gwell dealltwriaeth o'r cyllid sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio, ac i rannu arferion gorau gyda data o ansawdd gwell. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i gynyddu cyflymder gweithrediad y prosiectau lleihau carbon a mwy o gapasiti lle mae bylchau o ran sgiliau drwy ddarparu'r buddsoddiad angenrheidiol.<br><br>Ym mis Gorffennaf 2022, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru hefyd, sy'n amlygu'r camau allweddol sydd eu hangen ar y sector cyhoeddus i ddeall yr allyriadau carbon o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn well ac i sicrhau bod camau gweithredu i ddatgarboneiddio yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau strategol. Mae Strategaeth Newid Hinsawdd y Cyngor eisoes yn cwmpasu sawl agwedd yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o broses adolygu'r strategaeth yn 2024/25. Yn yr adolygiad hwn, bydd cynnwys a manylion yn cael eu cymharu â'r 'map llwybr Gofal Cymdeithasol' i sicrhau bod y maes gwasanaeth hwn yn cael ei | **COG – Amherthnasol**<br><br>Ers hyn mae Archwilio Cymru wedi cynnal archwiliadau unigol ym mhob awdurdod lleol i ganlyn yr argymhellion hyn.<br><br>Gwelwch Adran 1 – Asesiad Risg a Sicrwydd (Gorffennaf 2023). |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gynrychioli'n effeithiol. Bydd angen i adroddiadau allyriadau carbon i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys dadansoddiad ar wahân o'r allyriadau o ofal cymdeithasol.<br><br>Addaswyd y fethodoleg ar gyfer y data allyriadau carbon 2021/22 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i gynnwys y mesurau newydd mewn perthynas â gweithio gartref. Mae gan y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifo'r allyriadau hyn Wyriad Safonol Perthynol uchel iawn oherwydd bod y data angenrheidiol yn anodd ei nodi. Er mwyn gwneud y data hwn yn ystyrlon ac yn adlewyrchiad cywir o'r effeithiau carbon o weithio gartref, mae arnom angen cael gwell dealltwriaeth o faint o amser mae ein gweithwyr yn ei dreulio yn gweithio gartref. Gallai'r casgliad data hwn gael ei gyfuno â'r arolwg 'gweithwyr yn cymudo' ehangach. Oherwydd anghyfartalwch y data, a gan nad yw'r allyriadau o weithio gartref wedi cael eu cynnwys yn ein ffigyrau gwaelodlin, nid ydym wedi cynnwys hyn yn y cwmpas ar gyfer ein hadroddiad data allyriadau carbon 2021/22.<br><br>Wrth ychwanegu allyriadau gweithio gartref yn 2021/22, a gofal cymdeithasol yn 2022/23, mae'n bosib y gall symud y pyst o ran adrodd gael effaith andwyol ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran lleihau ein hallyriadau carbon. Dylid penderfynu a ddylid cynnwys unrhyw newid i'r fethodoleg mewn adroddiadau mewnol yn y dyfodol neu a ddylid cadw at y ffigyrau gwaelodlin gwreiddiol. | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ym mis Rhagfyr 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaethau ynni rhanbarthol a Chynlluniau Ynni Ardal Leol yn ei dull i greu cynllun ynni cenedlaethol erbyn 2024. Mae'r ymarfer hwn yn mapio cyflenwad ynni a'r galw am ynni yn y dyfodol ar gyfer pob rhan o Gymru i nodi bylchau a galluogi cynllunio ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Strategaeth Ynni a Chynllun Gweithredu Gogledd Cymru wedi cael eu datblygu drwy weithgor sector cyhoeddus a'u cymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn awr, mae angen i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu gael eu cefnogi gan bob Cyngor, a bydd y gwaith o weithredu hyn yn cael ei arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru.<br><br>Mae Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn arwain ar ddatblygu'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol a bydd gwaith gyda phob Cyngor yn dechrau yn 2023. Mae Cynllunio yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a bydd y Cynllun Ynni Ardal Leol yn llywio buddsoddiad lleol a chenedlaethol a phenderfyniadau ar ofynion y dyfodol ar gyfer ynni ar draws pob sector. | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: Mwy nag ymarfer blwch ticio?<br><br>Medi 2022 | **Dolen at yr adroddiad:** [https://archwilio.cymru/sites/default/files/publications/Asesiadau_or_effaith_ar_gydraddoldeb_cymraeg.pdf](https://archwilio.cymru/sites/default/files/publications/Asesiadau_or_effaith_ar_gydraddoldeb_cymraeg.pdf)<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>Roedd pedwar argymhelliad ond dim ond un mewn perthynas â chyrff cyhoeddus.<br><br>**Adolygu dull presennol cyrff cyhoeddus o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**<br><br>**A4** Er bod enghreifftiau o arfer da sy'n gysylltiedig â chamau penodol o broses Asesu'r effaith ar Gydraddoldeb, mae gan bob corff cyhoeddus wersi i'w dysgu am eu dull cyffredinol. Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion. Rydym yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i'n hargymhelliad arall ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau DCSC penodol i Gymru fod â goblygiadau ar gyfer y canllawiau presennol maes o law. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mehefin 24<br><br>Mehefin 24<br><br>Mehefin 24 | **COG: OREN**<br><br>Rydym ni'n cytuno â'r pedwar argymhelliad yn yr adroddiad ond mae tri ohonyn nhw yn berthnasol i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r tri argymhelliad sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru yn darparu mwy eglurder ar gyfer cyrff cyhoeddus o ran beth sy'n cael ei asesu, a sut dylai asesiad integredig o'r effaith edrych, a bydd yn sicrhau bod trefniadau partneriaeth yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau diwygiedig.<br><br>**A4** Cytuno â'r argymhelliad. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda sefydliad arall a chyfle i fabwysiadu eu dull ar gyfer asesu effaith. Mae cynllun gweithredu i weithredu ar ganfyddiadau Archwilio Cymru yn cael ei ddatblygu.<br><br>Cadwyd at ganllawiau EHRC wrth ddatblygu Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, ac mae model gogledd Cymru wedi'i fabwysiadu a'i anfon at EHRC er mwyn iddyn nhw ei gymeradwyo.<br><br>Mae'r Canolfan Arferion ar gael ar fewnrwyd/Infonet y Cyngor.<br><br>Mae dyddiadau adrodd dros dro wedi'u darparu ond fe allan nhw newid. | | **COG: GWYRDD**<br><br>Mae prosiect peilot ar yr adnodd Asesiad Effaith Integredig yn mynd rhagddo gyda Phrifysgol Manceinion. Bydd gwerthusiad o'r prosiect yn dechrau fis Ebrill 2024.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i adroddiad Archwilio Cymru wedi'u cwblhau. | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiad yr Iaith Gymraeg 2021-22<br><br>Hydref 2022 | **Dolen at yr adroddiad:** https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Adroddiad_yr_Iaith_Gymraeg_2021_22_0.pdf<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>Dim | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Amherthnasol<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | **COG:** Amherthnasol | **COG:** Amherthnasol |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21<br><br>Hydref 2022 | **Dolen at yr adroddiad:** https://audit.wales/sites/default/files/publications/Y_Fenter_Twyll_Genedlaethol_yng_Nghymru_2020_21_welsh_0.pdf<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>Dim | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Amherthnasol<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | **COG:** Amherthnasol | **COG:** Amherthnasol |
| Amser i Newid – Tlodi yng Nghymru<br><br>Tachwedd 2022 | **Dolen at yr adroddiad:** https://audit.wales/sites/default/files/publications/Amser_am_Newid_Tlodi_Cymraeg.pdf<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A2** Ym Mharagraffau 2.13 – 2.23 a Pharagraffau 3.33 – 3.35 rydym yn amlygu bod cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond bod y cymysgedd o ddulliau a thirwedd cyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n eang. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod gwerthuso gweithgarwch a'r modd yr adroddiad ar berfformiad hefyd yn amrywiol gyda llawer o fylchau. Rydym | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | I'w gadarnhau<br>I'w gadarnhau<br>I'w gadarnhau | **COG:** Amherthnasol<br><br>Rydym ni'n ymwybodol o'r adroddiad ac yn paratoi ein hymateb, a byddwn yn cyflwyno popeth drwy'r broses ddemocrataidd gyda hyn. | **COG:** **OREN**<br><br>Rydym ni'n parhau i weithio ar ein blaenoriaethau tlodi yng Nghynllun y Cyngor:<br><br>• Tlodi Incwm<br>• Tlodi Plant<br>• Tlodi Bwyd<br>• Tlodi Tanwydd<br>• Tlodi Digidol<br><br>Mae gan bob adran gamau gweithredu a mesurau cysylltiedig sy'n destun adroddiad yn unol â threfniadau adrodd ar berfformiad Cynllun y Cyngor.<br><br>Ni ydym eto wedi datblygu strategaeth gyfunol ar gyfer Sir y Fflint, mae'r gwaith yma'n mynd rhagddo. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | ni’n argymell bod y cynghorau’n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i’r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi’r targedau a’r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig. Dylai hyn:<br>• gynnwys camau gweithredu lleol CAMPUS gyda mwy o bwyslais ar atal;<br>• cynnwys cynllun adnoddau manwl ar gyfer oes y strategaeth;<br>• cael ei ddatblygu gydag ymwneud gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a’r rhai sydd â phrofiad o dlodi;<br>• cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniadau cyson i gynyddu dealltwriaeth am dlodi yn lleol; a<br>• bod yn destun adroddiadau cyhoeddus blynyddol er mwyn gallu bod â golwg system gyfan ar dlodi’n lleol i helpu i wella’r broses gyflawni a chymorth.<br><br>**Arweinyddiaeth ar yr agenda tlodi**<br><br>**A3** Ym Mharagraff 2.23 rydym yn nodi bod gan ychydig dros draean o’r cynghorau aelodau arweiniol a swyddogion arweiniol ar gyfer mynd i’r afael â thlodi. O ystyried pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol i yrru’r agenda tlodi yn ei blaen a thorri seilos o fewn cynghorau a rhwng cyrff cyhoeddus, rydym yn argymell bod pob cyngor yn dynodi aelod cabinet fel hyrwyddwr tlodi’r cyngor ac yn dynodi uwch swyddog i arwain a bod yn atebol am yr agenda wrthdlodi. | | | Bydd yr adroddiad Amser i Newid yn cael ei gyflwyno ddiweddarach yn y flwyddyn, ar ôl i’r amserlen o gyfarfodydd gael ei chadarnhau. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mapio profiadau i greu gwasanaethau cynhwysol i bobl mewn tlodi**<br><br>**A5** Ym Mharagraffau 3.2 – 3.6 rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl mewn tlodi yn aml mewn argyfwng, yn ymdrin â materion personol a materion sy'n llawn straen, ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth gan gynghorau oherwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Rydym yn argymell bod cynghorau'n gwella eu dealltwriaeth am 'brofiad personol' eu trigolion trwy eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau gan 'fapio profiadau' a/neu ddefnyddio 'Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi' i adolygu a gwella hygyrchedd gwasanaethau'r cyngor a'r defnydd ohonynt.<br><br>**Un dudalen lanio ar y wefan ar gyfer pobl sy'n chwilio am gymorth**<br><br>**A6** Ym Mharagraff 3.14 rydym yn tynnu sylw at yr anawsterau y mae pobl mewn tlodi yn eu hwynebu wrth geisio mynediad at wasanaethau ar-lein a digidol. Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael yr wybodaeth a'r cyngor y mae eu hangen arnynt, rydym yn argymell bod cynghorau'n optimeiddio eu gwasanaethau digidol trwy greu un dudalen lanio ar eu gwefan sydd:<br>• yn uniongyrchol hygyrch ar yr hafan;<br>• yn darparu dolenni i'r holl wasanaethau a ddarperir gan y cyngor<br>• sy'n ymwneud â thlodi; ac<br>• yn darparu gwybodaeth am waith partneriaid sy'n gallu cynorthwyo pobl mewn tlodi. | | | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Symleiddio a gwella gwasanaethau ymgeisio a gwybodaeth i bobl mewn tlodi**<br><br>**A7** Ym Mharagraffau 3.15 a 3.16 rydym yn nodi nad yw'r un cyngor wedi creu un porth i mewn i wasanaethau. O ganlyniad, mae'n rhaid i bobl gwblhau ffurflenni cais lluosog sy'n aml yn cofnodi'r un wybodaeth wrth wneud cais am wasanaethau tebyg. Rydym yn amlygu, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, bod angen i gynghorau hefyd rannu data er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Rydym yn argymell y dylai cynghorau:<br>• sefydlu safonau data a dull codio corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;<br>• cynnal archwiliad i ganfod pa ddata sy'n cael ei gadw gan wasanaethau a nodi unrhyw achosion o ddyblygu cofnodion a cheisiadau am wybodaeth;<br>• creu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau;<br>• cynnal archwiliad data i ddarparu hyfforddiant diweddaru i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data a pha ddata y gallant ac na allant ei rannu; ac<br>• adolygu a diweddaru protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data. | | | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol**<br><br>**A8** Ym Mharagraffau 3.27 i 3.32 rydym yn nodi, er bod pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i bennu effaith economaidd-gymdeithasol debygol dewisiadau a phenderfyniadau polisi, bod dulliau'n amrywio ac nad ydynt bob amser yn effeithiol. Rydym ni'n argymell bod cynghorau yn adolygu eu hasesiadau effaith integredig neu ddogfennau cyfwerth er mwyn:<br>• sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol (dim byd dros 12 mis oed) i ategu dadansoddiad;<br>• sicrhau bod asesiadau effaith integredig yn casglu gwybodaeth am:<br>- weithgarwch cynnwys sy'n nodi'r rhai y mae'r gwasanaeth wedi ymgysylltu â hwy wrth benderfynu ar ei bolisi strategol megis partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a'r rhai y mae'n cydgynhyrchu â hwy;<br>- yr effaith gronnus/camau lliniaru i sicrhau bod yr asesiad yn ystyried materion yn eu crynswth a sut mae'n cysylltu ar draws gwasanaethau a ddarperir ar draws y cyngor;<br>- sut y bydd y cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith ac yn cymryd camau cywiro; a<br>- chynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Integredig. | | | | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol (Adroddiad Cenedlaethol)<br><br>Rhagfyr 2022 | **Dolen at yr adroddiad:** [https://wao.gov.uk/sites/default/files/publications/Cyfle_wedi%E2%80%99i_golli_Mentrau_Cymdeithasol_Cymraeg.pdf](https://wao.gov.uk/sites/default/files/publications/Cyfle_wedi%E2%80%99i_golli_Mentrau_Cymdeithasol_Cymraeg.pdf)<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** I gael y gorau o'u gwaith gyda a'u cyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir yn eu lle. Rydym yn argymell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 2 i:<br>• hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu,<br>• rheoli, perfformiad ac arfer mewn perthynas â Mentrau Cymdeithasol ar hyn o bryd;<br>• adnabod cyfleoedd i wella cydweithio; a<br>• mynd ati ar y cyd i ddrafftio a chyflawni cynllun gweithredu gyda graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd trwy'r hunan-werthusiad.<br><br>**R2** I lywio gwelliant rydym yn argymell bod yr awdurdod lleol:<br>• yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gwblhawyd yn ffurfiol;<br>• yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd ar berfformiad, ei fonitro a'i werthuso mewn pwyllgorau craffu perthnasol; ac<br>• yn diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad. | Cabinet:<br><br><br><br><br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:<br><br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mai 23<br><br><br><br><br>Mai 23<br><br><br>Mehefin 23 | **COG: Amherthnasol**<br><br>Rydym ni'n ymwybodol o'r adroddiad ac yn paratoi ein hymateb, a byddwn yn cyflwyno popeth drwy'r broses ddemocrataidd gyda hyn. Dyddiadau adrodd dros dro wedi'u darparu. | **COG: GWYRDD**<br><br>Bydd y cynnydd o ran gweithredu'r cynllun gweithredu, yn cynnwys sut mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau adran 16, yn cael ei adrodd yn ffurfiol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu yn flynyddol.<br><br>**A1** Mewn ymateb i adroddiad Archwilio Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cwblhau proses hunanwerthuso ar ei waith gyda mentrau cymdeithasol mewn ymgynghoriad â'r sector. Defnyddiwyd y templed a ddarparwyd gan Archwilio Cymru (Atodiad 1). Mae'r Cyngor, mewn ymateb i ganfyddiadau'r hunanasesiad, wedi gweithio gyda'r sector i ddiweddaru'r cynllun gweithredu mentrau cymdeithasol (Atodiad 2). Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol ei drafod, ac yna i'r Cabinet ei gymeradwyo.<br><br>**A2** Bydd cynllun gweithredu mentrau cymdeithasol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol ei drafod, ac yna i'r Cabinet ei gymeradwyo'n ffurfiol. Mae'r cynnydd wrth gefnogi mentrau cymdeithasol eisoes yn cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu fel rhan o waith monitro ffurfiol Cynllun y Cyngor. Fodd bynnag, fel y nodir yn y cynllun gweithredu, bydd cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fentrau cymdeithasol ymhlith aelodau etholedig yn cael eu creu drwy ddigwyddiadau penodol ac adroddiadau manylach. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **A3** Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol rydym yn argymell ei fod yn adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn dilyn gwerthuso ei Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | | | | **A3** Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol rydym yn argymell ei fod yn adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn dilyn gwerthuso ei Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| Darlun o Reoli Perygl Llifogydd<br><br>Rhagfyr 2022 | **Dolen at yr adroddiad:** [https://audit.wales/sites/default/files/publications/Darlun_o_Reoli_Perygl_Llifogydd_Cymraeg_3.pdf](https://audit.wales/sites/default/files/publications/Darlun_o_Reoli_Perygl_Llifogydd_Cymraeg_3.pdf)<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella**<br><br>Dim | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Amherthnasol<br><br>Amherthnasol<br><br>Amherthnasol | COG: OREN<br><br>Rydym yn ymwybodol o’r adroddiad. Does dim argymhellion penodol ar gyfer awdurdodau lleol ac nid yw Archwilio Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu ymateb ffurfiol i’r adroddiad ar lifogydd, na chyflwyno'r adroddiad i gyfarfod pwyllgor. Maen nhw’n gobeithio y bydd yr adroddiad yn darparu cyd-destun defnyddiol i roi gwybod i bwyllgorau craffu am faterion rheoli perygl llifogydd. Mae’r adroddiad fodd bynnag yn codi nifer o gwestiynau sydd angen ystyriaeth bellach gan y Cyngor, gan nad yw’r disgwyliadau a roddir ar gynghorau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd yn cyd-fynd â gallu cynghorau i ariannu ac ymateb i’r newid arwyddocaol yma. Mae’r cwestiynau sydd angen ei hystyried yn cynnwys:<br><br>• Dull y Cyngor ar gyfer adolygu ei Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd a chreu cynllun gweithredu realistig a chyflawnadwy sy’n | COG: GWYRDD<br><br>Does dim argymhellion penodol ar gyfer awdurdodau lleol ac nid yw Archwilio Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu ymateb ffurfiol i’r adroddiad ar lifogydd, na chyflwyno'r adroddiad i gyfarfod pwyllgor.<br><br>Mae’r adroddiad yn codi nifer o gwestiynau a fydd yn cael sylw wrth adolygu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd y Cyngor. Byddwn yn dechrau adrodd ar hyn i’r Cabinet Anffurfiol, y Pwyllgor Craffu a’r Pwyllgor Newid Hinsawdd ddiwedd y gwanwyn, cyn cael cymeradwyaeth derfynol y Cabinet yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn yr hydref a chyflwyno’r ddogfen i Lywodraeth Cymru wedyn. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | blaenoriaethu ardaloedd mwyaf diamddiffyn i lifogydd yn Sir y Fflint;<br>• Swm a dosbarthiad cyllid Llywodraeth Cymru;<br>• Y dull Cyngor gyfan i reoli perygl llifogydd;<br>• Cyflwyno darlun cyfan o gyfrifoldebau’r Cyngor mewn perthynas ag asedau rheoli perygl llifogydd.<br>• Diffyg profiad a gallu proffesiynol yn y sector perygl llifogydd ac anallu i recriwtio a chadw arbenigedd rheoli perygl llifogydd;<br>• Y baich ychwanegol a roddwyd ar gynghorau i fod yn Gyrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy, sy’n aml yn defnyddio’r un adnoddau mewnol sy’n bodoli ar gyfer rheoli perygl llifogydd, mae’r adnodd hwn yn bodoli os oes ei angen;<br>• Gallu Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfeiriad proffesiynol a thechnegol a chefnogi cynghorau gyda materion perygl llifogydd, yn hytrach na gweithredu fel gweinyddwr grantiau; a<br>• Graddfa’r cydlynu a’r cydweithio rhwng y Cyngor a chyrff rheoli perygl llifogydd eraill, yn cynnwys Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Bydd y rhain ac ystyriaethau eraill yn cael sylw mewn adroddiadau i’r Cyngor. | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau (Adroddiad Cenedlaethol)<br><br>Ionawr 2023 | **Dolen at yr adroddiad:** https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Gyda%E2%80%99n_gilydd_fe_allwn_ni_Cydnerthedd_a_hunanddibyniaeth_cymunedau_Cymraeg_2.pdf<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** I gryfhau cydnerthedd cymunedau a chynorthwyo pobl i fod yn fwy hunanddibynnol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r offeryn gwerthuso yn Atodiad 2 i:<br><br>• hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac ymarfer cyfredol;<br>• adnabod ble y mae angen gwelliant; a<br>• drafftio a chyflawni cynllun gweithredu sy'n cynnwys fframiau amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n gywir i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a adnabuwyd wrth gwblhau'r offeryn gwerthuso. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | 18 Mehefin 24<br><br>12 Mehefin 24<br><br>26 Mehefin 24 | COG: Amherthnasol<br><br>Rydym ni'n ymwybodol o'r adroddiad ond oherwydd ei fod yn ymdrin â maes trawsbynciol (ac un heb ei ddiffinio'n dda iawn), mae swyddog wedi'i enwebu i arwain hyn ond bydd angen mewnbwn nifer o feysydd gwasanaeth.<br><br>Bydd ymateb yn cael ei baratoi a'i gyflwyno drwy'r broses lywodraethu gyda hyn. Dyddiadau adrodd dros dro wedi'u darparu. | COG: Amherthnasol ar hyn o bryd<br><br>Mae swyddogion priodol wedi ystyried adroddiad ac argymhellion Archwilio Cymru.<br>Mae adroddiad yn amlinellu'r ymateb arfaethedig yn cael ei lunio a bydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgorau perthnasol a'r Cabinet ym mis Mehefin 2024.<br><br>Bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd yr adroddiad hwn yn cael ei chyflwyno yn yr adroddiad blynyddol ar reoleiddio allanol y flwyddyn nesaf. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **A2** I helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r bylchau a gaiff eu canfod ganddynt yn dilyn eu hunanwerthusiad, rydym yn argymell eu bod:<br><br>• yn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r Cynllun Gweithredu wedi'u gwblhau sy'n codi o'r ymarfer hunanwerthuso;<br>• adrodd ar berfformiad, monitro perfformiad a gwerthuso perfformiad yn rheolaidd mewn pwyllgorau craffu perthnasol; a<br>• diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad. | | | | |

# Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Ni chyhoeddwyd adroddiadau ar arolygon gan AGC ynglŷn â Sir y Fflint fel awdurdod yn 2022/23 ac felly nid oes diweddariad ar y cynnydd.

# Estyn

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (darperir ar y cyd â Wrecsam)<br><br>Mai 2022 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-08/Adroddiad%20arolygiad%20Partneriaeth%20Dysgu%20Oedolion%20yn%20y%20Gymuned%20Wrecsam%20a%20Sir%20y%20Fflint%202022.pdf<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>**A2** Olrhain, monitro a gwerthuso cynnydd dysgwyr yn y tymor hir trwy ddarpariaeth y bartneriaeth<br><br>**A3** Datblygu dull partneriaeth o ran hunanwerthuso a gwella dysgu ac addysgu ar draws darpariaeth y bartneriaeth<br><br>**A4** Gwella cyfleoedd i ddysgwyr dderbyn cyngor ac arweiniad am ymuno â darpariaeth y bartneriaeth | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol: | Medi 22<br><br><br><br><br>Hydref 22 | **COG: GWYRDD**<br><br>Mae’r pedwar argymhelliad yn yr arolygiad yn cael eu cyflawni drwy’r Cynllun Gwella Ansawdd Dysgu Oedolion yn y Gymuned sy’n cael ei oruchwylio gan Fwrdd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ymhen deuddeg mis yn amlinellu’r cynnydd.<br><br>Hefyd, gofynnwyd i’r Bartneriaeth greu dwy astudiaeth achos o arfer gorau ar gyfer Estyn. Maen nhw ar gael yma:<br><br>**Sefydlu partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned newydd yn Wrecsam a Sir y Fflint:**<br>https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/sefydlu-partneriaeth-dysgu-oedolion-yn-y-gymuned-newydd-yn-wrecsam-a-sir-y-fflint/<br><br>**Dysgu teuluol:**<br>https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/dysgu-teuluol/ | **COG: GWYRDD**<br><br>Ar 13 Gorffennaf 2023 cafodd y Pwyllgor Craffu ddiweddariad ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor yr argymhelliad i nodi’r cynnydd yn erbyn argymhellion arolwg Estyn a bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau gan drylwyredd y cynllunio a gwerthuso gwelliant o fewn y Bartneriaeth.<br><br>Mae’r gwaith parhaus wedi’i amsugno i gylch gwella blynyddol y Bartneriaeth. |

# Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) 2022-23 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Gwybodaeth 2021-22<br><br>Gorffennaf 2022 | **Dolen at yr adroddiad:** [https://ico.org.uk/media/about-the-ico/documents/4021039/ico-annual-report-2021-22.pdf](https://ico.org.uk/media/about-the-ico/documents/4021039/ico-annual-report-2021-22.pdf)<br><br>**Argymhelliad / Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>Dim | Cabinet: | Amherthnasol | **COG:** Amherthnasol | **COG:** Amherthnasol |
| | | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol: | Amherthnasol | | |
| | | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Amherthnasol | | |